

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 3 April 2020

STATWS: CAM GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: YMATEB I COVID-19 – PARHAU Â RHAGLENNI IMIWNEIDDIO

Dyddiad Dod i Ben / Adolygu Amherthnasol

I'w Weithredu gan:

Ymarferwyr Cyffredinol
Arweinyddion Imiwneiddio, Byrddau/
Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Weithredwyr, Byrddau/ Ymddiriedolaethau
Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau/
Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac
Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau/
Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd
y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Nyrsio, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau
Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Er gwybodaeth:

Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol,
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Bydwragedd arweiniol
Arweinyddion nyrsys ysgol
Ymwelwyr Iechyd arweiniol

Anfonwyd gan:

Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ E-bost: healthprotection@gov.wales

Dogfennau amgaeedig :

Annwyl Gyfaill

YMATEB I COVID-19 – PARHAU Â RHAGLENNI IMIWNEIDDIO

Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd mae ymddiriedolaethau a byrddau iechyd y GIG yn gohirio amrywiaeth o waith dewisol a gwaith nad yw'n waith brys er mwyn blaenoriaethu achosion COVID-19. Mae parhau â rhaglenni imiwneiddio'n flaenoriaeth allweddol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag heintiau ataliadwy eraill yn ystod y cyfnod hwn ac yn y dyfodol. Rwyf felly'n gofyn bod **y gwaith imiwneiddio'n parhau yn ystod y cyfnod hwn, yn unol â chyngor clinigol a'r amserlen briodol, cyn belled â bod hynny'n bosibl.**

Gofal Sylfaenol

Cyhoeddwyd cyngor ar [newidiadau dros dro](#) i'r contract gofal sylfaenol ar 17 Mawrth, ac roedd y cyngor hwnnw'n cyfeirio at imiwneiddio:

- Dylai'r rhaglen imiwneiddio arferol barhau ar gyfer plant, a hynny fel mater o flaenoriaeth uchel.
- Dylai'r rhaglen imiwneiddio barhau ar gyfer menywod beichiog a menywod ôl-enedigol (pertussis ac MMR).
- Dylai plant ac oedolion mewn grwpiau clinigol sydd mewn perygl barhau i gael eu himiwneiddio'n unol â chyngor y Llyfr Gwyrdd.
- Mae'r rhaglen imiwneiddio arferol yn erbyn yr eryr wedi ei hatal dros dro.
- Mae'r rhaglen niwmococal (PPV) ar gyfer oedolion wedi ei hatal dros dro oherwydd prinder y brechlyn. Yn y cyfamser, mae'n bosibl cael brechlyn niwmococal cyfun (PCV) o'r cyflenwad canolog ar gyfer oedolion sydd mewn perygl, a ddylai gael eu brechu lle bo hynny'n bosibl.

Rhaglenni ysgol

Mae rhaglenni ysgol wedi eu hatal dros dro. Bydd angen ad-drefnu sesiynau pan fydd yr ysgolion yn ail-agor. Mae'n bosib y gallai byrddau iechyd gynig trefniadau amgen cyn hynny.

Rhaglenni ôl-enedigol

Dylai'r rhaglen imiwneiddio ôl-enedigol yn erbyn hepatitis B a BCG barhau.

Brechlynnau teithio

Mae brechlynnau teithio yn flaenoriaeth isel, ac ni ddylid eu cynnig oni bai eu bod yn hanfodol.

Rhaglen brechu yn erbyn y fflw 2020-21

Bydd y rhaglen brechu yn erbyn y fflw 2020-21 yn bwysig yn strategol yng nghyd-destun COVID-19, a dylid parhau i gynllunio ar ei chyfer. Bydd y llythyr fflw tymhorol blynyddol yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Rhaid inni sicrhau ein bod yn amddiffyn ein poblogaeth mor effeithiol â phosibl yn erbyn clefydau ataliadwy, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn. Rwy'n cydnabod na fydd hynny'n bosibl heb gefnogaeth barhaus y staff sy'n darparu'r rhaglenni hyn. Rwy'n cydnabod yr holl waith eithriadol sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn gan staff y GIG wrth ymateb i bandemig COVID-19, a hoffwn ddiolch i'r holl staff iechyd am eu holl waith caled ac ymroddiad diflino wrth iddynt ymateb i bwysau cynyddol sefyllfa sy'n newid mor gyflym.

Yn gywir,



Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru